ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales


Datganiad Ystadegol Cyntaf

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarth De-dwyrain Cymru: 2020

**20 Mai 2020**
**SFR 47/2020**

Diweddarwyd yr adroddiadau hyn i gefnogi datblygiad parhaus y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn dilyn ymgynghori ar yr NDF drafft yn hydref 2019. Rhannwyd rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn rhanbarthau ar wahân ar gyfer Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru i ddarparu dadansoddiad manylach ar y materion a'r tueddiadau allweddol yn y meysydd hyn. Mae rhanbarth De-ddwyrain Cymru yn cynnwys awdurdodau lleol: Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg. Nod y datganiad hwn yw rhoi dadansoddiad ystadegol o ranbarth y De-ddwyrain a thynnu sylw at wahaniaethau a all fodoli ledled y rhanbarth ar gyfer y naw pwnc dan sylw.




- De-ddwyrain Cymru yw'r unig ranbarth yng Nghymru lle mae newid naturiol (y boblogaeth y gellir ei phriodoli i'r gwahaniaeth rhwng genedigaethau a marwolaethau) wedi bod yn gwbl gadarnhaol ers 1991-92, er bod lefel y newid naturiol wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Yn 2018, roedd 725,500 o bobl yn gweithio yn y rhanbarth, sef hanner yr holl gyflogaeth ledled Cymru.
- Ar y cyfan, roedd lefelau nitrogen deuocsid yn uwch yn awdurdodau lleol De-ddwyrain Cymru nag mewn awdurdodau lleol yn y rhanbarthau eraill, ond mae'r lefelau hyn wedi bod yn gostwng dros amser.

## Y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn un o bum allbwn ystadegol sy'n rhoi ystadegau ar gyfer Cymru a phob un o'r pedwar rhanbarth Cymru (Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru), ar gyfer naw thema allweddol. Gyda'i gilydd, mae'r datganiadau hyn wedi cael eu paratoi i roi gwybodaeth ar gyfer cynllunio rhanbarthol, gan gefnogi Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

## Yn y datganiad hwn


| | |
|---|---|
| Poblogaeth | 2 |
| Iechyd | 9 |
| Cyflogaeth | 11 |
| Trafnidiaeth | 16 |
| Yr Amgylchedd | 19 |
| Ffyniant | 23 |
| Seilwaith Digidol | 26 |
| Tai | 30 |
| Diwylliant a threftadaeth | 32 |
| Gwybodaeth am Ansawdd | 33 |

Ystadegydd: Geraint Turner ~ 0300 025 5050 ~ desg.ystadegau@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050 Twitter: @ystadegaucymru

# Poblogaeth

### Ffigur 1: Y boblogaeth yn y De-ddwyrain, yn ôl awdurdod lleol, 2018





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn 2018, roedd bron 1,533,000 o bobl yn byw yn y De-ddwyrain, gyda thua 24 y cant ohonynt yn byw yng Nghaerdydd.

Hwn oedd yr awdurdod lleol mwyaf yn y rhanbarth ac yng Nghymru o ran poblogaeth o bell ffordd, gyda thua 364,000 o drigolion. Yr awdurdod â'r boblogaeth leiaf yn y rhanbarth hwn oedd Merthyr Tudful gyda phoblogaeth o tua 60,000.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 2: Dwysedd y boblogaeth (unigolion fesul cilometr sgwâr) yn y De-ddwyrain, yn ôl awdurdod lleol, 2018**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Mesuriadau ardal safonol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Roedd gan Dde-ddwyrain Cymru ddwysedd poblogaeth o 546 o bobl fesul cilometr sgwâr yn 2018, sy'n golygu mai hwn oedd yr ardal fwyaf poblog o blith rhanbarthau Cymru.

Yn y rhanbarth, Caerdydd oedd yr awdurdod mwyaf poblog gyda 2,585 o bobl fesul cilometr sgwâr. Yr awdurdod lleol teneuaf ei boblogaeth oedd Sir Fynwy, gyda dwysedd poblogaeth o 111 o bobl fesul cilometr sgwâr. Rhwng 2008 a 2018, cynyddodd dwysedd y boblogaeth 5.1 y cant yn y De-ddwyrain. Hon oedd y ganran uchaf a gofnodwyd yn y pedwar rhanbarth. Yr awdurdod lle y cafwyd y cynnydd mwyaf yn nwysedd y boblogaeth yn y rhanbarth ac yng Nghymru dros y cyfnod hwn oedd Caerdydd, sef 9.5 y cant. Ym Mlaenau Gwent y gwelwyd yr unig ostyngiad, gyda dwysedd y boblogaeth yn gostwng 0.2 y cant rhwng 2008 a 2018.

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2011 (heb ei gyhoeddi) yn dangos bod poblogaeth y De-ddwyrain wedi’i chrynhoi'n llwyr mewn aneddiadau "llai tenau", gyda 55 y cant o'r trigolion yn byw mewn aneddiadau â 25,000 neu fwy o drigolion.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 3: Dosbarthiad y boblogaeth yn y De-ddwyrain, yn ôl oedran a rhyw, 2018**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys siâp cymharol unffurf y pyramid poblogaeth ar gyfer y De-ddwyrain bod dosbarthiad yr oedrannau yn weddol cyfartal, y dosbarthiad mwyaf cyfartal o oedrannau o blith y pedwar rhanbarth yng Nghymru yn 2018. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r nifer cymharol uchel o fyfyrwyr prifysgol sy'n byw yn yr ardal, yn enwedig yng Nghaerdydd.

Rhwng 1998 a 2018, mae cyfran y boblogaeth 65 oed a throsodd wedi cynyddu o 16.0 y cant i 18.5 y cant, tra bod cyfran y boblogaeth 15 oed ac iau wedi gostwng o 21.6 y cant i 18.6 y cant. Y De-ddwyrain yw'r unig ranbarth yng Nghymru sydd â chyfran uwch o'r boblogaeth sy'n 15 oed ac iau nag sy'n 65 oed a throsodd.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 4: Newid canrannol yn y boblogaeth yn y De-ddwyrain, yn ôl awdurdod lleol, 1998-2018**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Cynyddodd poblogaeth y rhanbarth 9.6 y cant rhwng 1998 a 2018. Fodd bynnag, mae'r newid yn y boblogaeth wedi amrywio rhwng awdurdodau lleol y rhanbarth dros y cyfnod hwn.

Lleihau a wnaeth y boblogaeth mewn 2 o'r 10 awdurdod lleol yn y rhanbarth dros hanner cyntaf y cyfnod hwn, ond dim ond ym Mlaenau Gwent y gwelwyd twf negyddol yn y boblogaeth rhwng 2008 a 2018.

Yng Nghaerdydd y gwelwyd y gyfradd twf poblogaeth uchaf rhwng 1998 a 2018 (sef 18.0 y cant). Casnewydd a welodd y newid mwyaf o ran twf yn y boblogaeth rhwng y cyfnodau 1998-2008 a 2008-2018, gan fynd o gyfradd twf o 3.9 y cant i 7.4 y cant. Y twf cymedrig yn y boblogaeth ar draws awdurdodau lleol y De-ddwyrain dros y cyfnod 2008-2018 oedd 7,471 o bobl. Roedd hyn yn uwch na'r canolrif (5,084 o bobl) oherwydd y gyfran uchel o dwf sy'n digwydd yng Nghaerdydd.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 5: Elfennau newid yn y boblogaeth yn y De-ddwyrain dros amser**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gan edrych ar ddata sy'n dangos elfennau newid yn y boblogaeth ledled y De-ddwyrain, gwelwn ddarlun gwahanol i'r un a welir ledled Cymru gyfan ac yn y tri rhanbarth arall. Hwn yw'r unig ranbarth lle mae newid naturiol (y boblogaeth y gellir ei phriodoli i'r gwahaniaeth rhwng genedigaethau a marwolaethau) wedi bod yn gwbl gadarnhaol ers 1991-92, er bod lefel y newid naturiol wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r data hefyd yn dangos bod lefelau mewnfudo wedi bod yn uwch na lefelau allfudo ers y cyfnod 2001-02. Drwy ddadansoddi'r data hyn ar lefel awdurdod lleol, gwelwn mai ym Mro Morgannwg y gwelwyd y newid net mwyaf yn y boblogaeth oherwydd ymfudo a newidiadau eraill rhwng 2017-18, tra mai yng Nghasnewydd y gwelwyd y newid mwyaf yn y boblogaeth yn gyffredinol. Roedd newid yn y boblogaeth oherwydd ymfudo net a newidiadau eraill yn gadarnhaol ym mhob awdurdod yn y rhanbarth, sy'n golygu, ym mhob rhanbarth, fod mwy o bobl yn symud i mewn nag sy'n symud allan. Caerdydd oedd yr awdurdod lleol â'r lefel uchaf o newid naturiol yn 2017-18, yn y rhanbarth a Chymru, o bell ffordd, tra gwelwyd newid naturiol negyddol mewn pedwar o'r 10 awdurdod yn y rhanbarth, sy'n golygu bod nifer y marwolaethau yn fwy na nifer y genedigaethau. Yn Sir Fynwy y cofnodwyd y lefel uchaf o newid naturiol negyddol.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 6: Y gallu i siarad Cymraeg a nodwyd gan unigolion tair oed a throsodd yn y De-ddwyrain, yn ôl awdurdod lleol, 2011**





Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn ôl data'r Cyfrifiad, roedd 150,792 o siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn y rhanbarth yn 2011. Roedd mwy o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd nag mewn unrhyw awdurdod arall yn y rhanbarth, tra mai Merthyr Tudful oedd â'r nifer leiaf o siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, fel cyfran o'r bobl tair a throsodd, Rhondda Cynon Taf oedd yr awdurdod lleol â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg (12.3 y cant), tra mai Blaenau Gwent oedd â'r ganran isaf (7.8 per cent).

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell allweddol o wybodaeth am y nifer o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth hefyd yn casglu gwybodaeth am allu'r ymatebwyr i siarad Cymraeg a pha mor aml y maent yn ei defnyddio (dim ond gwybodaeth am bobl 16 oed a throsodd y mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ei chasglu tra bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth am bobl tair oed a throsodd fel y cyfrifiad). Yn hanesyddol, mae amcangyfrifon o allu pobl yn y Gymraeg o arolygon o gartrefi yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y cyfrifiad ac nid yw'r union reswm dros hyn yn hysbys. Mae'n debygol bod gwahaniaethau yn y ffordd y caiff yr arolygon hyn a'r cyfrifiad eu cynnal yn effeithio ar yr amcangyfrifon. Ceir rhagor o wybodaeth mewn blog a gyhoeddwyd gan y Prif Ystadegydd sy'n trafod data ar y Gymraeg.

Dengys data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth fod tua 20.2 y cant o drigolion y De-ddwyrain tair oed a throsodd wedi dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2019. Hon oedd y gyfran isaf o blith y pedwar rhanbarth, ac eto roedd yn cyfateb i gynnydd o tua 2.7 pwynt canran o gymharu â data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2009, ac mae'n cyfateb i'r nifer fwyaf o bobl sy'n siarad Cymraeg oherwydd y boblogaeth gymharol uchel yn y rhanbarth. Yng Nghaerdydd y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros y cyfnod mis Medi 2009 i fis Medi 2019, ond gwelwyd gostyngiad bychan yn Nhorfaen dros yr un cyfnod. Mae canrannau rhanbarthol wedi'u cyfrifo ar sail ffigurau wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

**Ffigur 7: Cofrestriadau myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn y De-ddwyrain, 2018-19**




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr addysg uwch, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch


Yn 2018-19, cafwyd ychydig dros 66,195 o gofrestriadau ar gyrsiau Addysg Uwch (AU) yn y De-ddwyrain, sy'n cyfateb i hanner yr holl gofrestriadau yng Nghymru. Prifysgol Caerdydd a gafodd y nifer fwyaf o gofrestriadau AU yn y rhanbarth ac yng Nghymru, sy'n cyfateb i 25.1 y cant o gyfanswm y cofrestriadau yng Nghymru. Mae'r data yn dangos bod crynodiad mawr o fyfyrwyr y rhanbarth yng Nghaerdydd.

## Iechyd

Mae disgwyliad oes yn fesur o ba mor hir, ar gyfartaledd, y gall pobl ddisgwyl byw gan ddefnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth a nifer y marwolaethau. Mae disgwyliad oes iach yn amcangyfrif nifer y blynyddoedd a dreulir mewn iechyd cyffredinol da iawn neu dda.

Dengys data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2016-18 yn y De-ddwyrain fod disgwyliad oes dynion, disgwyliad oes menywod a disgwyliad oes dynion iach ar eu huchaf yn Sir Fynwy ac ar eu hisaf ym Mlaenau Gwent. Roedd disgwyliad oes menywod iach ar ei uchaf yn Sir Fynwy ac ar ei isaf yng Nghaerffili. Roedd gan y De-ddwyrain rai o'r ffigurau uchaf ac isaf ar gyfer disgwyliad oes a disgwyliad oes iach ledled Cymru, a'r gwahaniaeth rhwng awdurdodau lleol oedd y mwyaf o blith rhanbarthau Cymru, gyda bwlch o 4-5 o flynyddoedd mewn disgwyliad oes a 10-11 o flynyddoedd mewn disgwyliad oes iach.

**Ffigur 8: Oedolion 16 oed a throsodd sy'n dangos 0 neu 1 ymddygiad ffyrdd iach o fyw, yn ôl awdurdod lleol, 2017-18 a 2018-19* (wedi'u safoni yn ôl oedran)**





*Cyfunwyd y cyfnodau 2017-18 a 2018-19 at ddibenion ansawdd data

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Y 5 ffordd iach o fyw yw peidio ag ysmygu, yfed 14 uned neu lai o alcohol yr wythnos ar gyfartaledd, bwyta o leiaf 5 dogn o ffrwythau y diwrnod blaenorol, cael mynegai màs corff iach a bod yn egnïol o leiaf 150 munud yr wythnos flaenorol.

Ar draws y De-ddwyrain yn 2017-18 a 2018-19 gyda'i gilydd, nododd 10 y cant o oedolion bod ganddynt lain a 2 o'r 5 ffordd iach o fyw. Roedd hyn yn amrywio o 6 y cant yn Sir Fynwy i 15 y cant ym Merthyr Tudful. Gan y De-ddwyrain yr oedd rhai o'r cyfraddau uchaf ac isaf yng Nghymru.

**Ffigur 9: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd a nododd eu bod mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn, yn ôl awdurdod lleol, 2017-18 a 2018-19* (wedi'i safoni yn ôl oedran)**





* Cyfunwyd y cyfnodau 2017-19 a 2018-19 at ddibenion ansawdd data

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Ar draws y De-ddwyrain yn 2017-18 a 2018-19 gyda'i gilydd, dywedodd 70 y cant o oedolion eu bod mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn. Roedd hyn yn amrywio o 64 y cant ym Mlaenau Gwent i 76 y cant yn Sir Fynwy. Roedd gan y De-ddwyrain rai o'r cyfraddau uchaf ac isaf yng Nghymru.


Ar gyfer data awdurdodau lleol a gymerwyd o Arolwg Cenedlaethol Cymru (0 neu 1 ymddygiad ffordd iach o fyw ac iechyd da hunangofnodedig), nid yw'r holl wahaniaethau rhwng awdurdodau lleol yn arwyddocaol yn ystadegol.

## Cyflogaeth




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Data'n ymwneud â'r flwyddyn yn dod i ben 30 Medi 2019

**Ffigur 10: Y gyfradd gyflogaeth yn y De-ddwyrain, 1999-2019**




Mae'r data ar gyfer 1999 i 2003 ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 28 Chwefror. Mae'r data ar gyfer 2004 ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2004. Mae'r data o 2005 ymlaen ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 30 Medi. Nid ystyriwyd bod data 1999 a 2000 ar gyfer y lefel ddaearyddol hon yn ddigon cadarn i'w gyhoeddi

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Y lefel gyflogaeth yw cyfanswm y bobl (16+ oed) sydd mewn cyflogaeth a'r gyfradd gyflogaeth yw canran y boblogaeth (16-64 oed) sydd mewn cyflogaeth. O'r pedwar rhanbarth, y De-ddwyrain oedd â'r lefel cyflogaeth uchaf yng Nghymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2019, gan adlewyrchu'r ffaith fod ganddi boblogaeth uwch na'r tair rhanbarth arall. Fodd bynnag, roedd yn cynnwys 3 o'r 5 awdurdod lleol â'r cyfraddau cyflogaeth isaf yng Nghymru. Gyda 193,600 o bobl, Caerdydd oedd â'r lefel cyflogaeth uchaf yng Nghymru, a Merthyr Tudful oedd â'r lefel isaf, gyda dim ond 27,200 o bobl mewn cyflogaeth.


Ers 2001, mae cyfradd gyflogaeth y rhanbarth wedi cynyddu 6.8 pwynt canran, ond ym Merthyr Tudful cynyddodd y gyfradd gyflogaeth 13.8 pwynt canran, y newid mwyaf ond un ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Y lefel diweithdra yw cyfanswm y bobl sy'n ddi-waith a'r gyfradd ddiweithdra yw canran y boblogaeth economaidd weithgar sy'n ddi-waith (gan ddefnyddio diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o ddiweithdra). Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2019, y gyfradd ddiweithdra yn y De-ddwyrain oedd 4.3 y cant, sef gostyngiad o 1.4 pwynt canran ers 2001. Cyfradd ddiweithdra Blaenau Gwent a welodd y newid mwyaf sylweddol ar draws Cymru yn ystod y cyfnod hwn, gan ostwng 3.7 pwynt canran ers 2001. Yn y cyfamser, Rhondda Cynon Taf oedd â'r gyd-gyfradd ddiweithdra uchaf yng Nghymru, sef 6.4 y cant.

Y gyfradd anweithgarwch economaidd yw canran y boblogaeth nad yw'n gweithio ac nad yw'n chwilio am waith nac ar gael i weithio. Mae pobl economaidd anweithgar yn cynnwys pobl sy'n gofalu am y teulu a/neu'r cartref, pobl sydd wedi ymddeol a phobl â salwch neu anabledd. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2019, y gyfradd anweithgarwch economaidd yn y De-ddwyrain oedd 19.9 y cant, sef gostyngiad o 7.0 pwynt canran o gymharu â 2001. Roedd y newid hwn ychydig yn fwy na'r newid a welwyd ledled Cymru. Cyfradd anweithgarwch economaidd Merthyr Tudful a welodd y newid mwyaf sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, gan ostwng 15.0 pwynt canran ers 2001.

Ceir rhagor o wybodaeth ar ystadegau economegol rhanbarthol ym Mhrofiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 11: Cyflogaeth yn y gweithle, yn ôl awdurdod lleol, 2018**





Ffynhonnell: Cyflogaeth yn y Gweithle, Llywodraeth Cymru

Mae amcangyfrifon o gyflogaeth yn y gweithle, neu amcangyfrifon o gyfanswm swyddi, ar gyfer Cymru a'i hisranbarthau yn deillio o nifer o ffynonellau data - yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gan yr SYG yn bennaf (sef yr Arolwg Blynyddol o'r Llafurlu Lleol gynt) a hefyd y BRES a Chyfrifiad Amaethyddol Cymru. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â data'r Arolwg o'r Llafurlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, a gymerir o ddata a gesglir yn bennaf oddi wrth drigolion aelwydydd preifat.

Dengys data cyflogaeth yn y gweithle, yn 2018, fod 725,500 o bobl yn gweithio yn y rhanbarth, sef hanner yr holl gyflogaeth ledled Cymru. Lefel gyfartalog cyflogaeth yn 10 awdurdod lleol y rhanbarth oedd 72,600. Mae'r lefel ganolrifol ledled y rhanbarth, sef 55,400, islaw lefel ganolrifol rhanbarth y De-orllewin (68,800 person).

Y sector eiddo tirol oedd â'r newid canrannol mwyaf mewn swyddi yn ystod y cyfnod 2008-2018, tra bod y newid mwyaf yn y lefel o swyddi yn y gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; sector gweinyddol a gweithgareddau gwasanaeth cymorth, a welodd dwf o 30,700 o bobl. Y sector cynhyrchu a welodd y gostyngiad mwyaf o ran canran ac o ran nifer y swyddi, i lawr 7,400 (8.3 y cant). Sylwer bod gwahaniaethau wedi'u cyfrifo o ddata wedi’u talgrynnu a gyhoeddwyd.

**Ffigur 12: Y newid ym mhoblogaethau awdurdodau lleol yn y De-ddwyrain o ganlyniad i bobl yn cymudo i mewn i'r rhanbarth ac allan ohono ar gyfer gwaith, 2018**





Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn gyffredinol, y newid net yn nifer y gweithwyr ledled y rhanbarth oedd -18,100, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cymudo allan o'r rhanbarth nag sy'n cymudo i mewn i'r rhanbarth. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i weithwyr sy'n cymudo ar draws y ffin i ardaloedd megis Bryste. Noder bod newidiadau net a data ar gyfer y rhanbarthau wedi'u cyfrifo ar sail data wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

Dengys data o 2018 fod y newid net yn y boblogaeth o weithwyr yn negyddol mewn 6 o 10 awdurdod lleol y rhanbarth, sy'n golygu, yn yr awdurdodau hyn, fod mwy o bobl yn cymudo allan o'r awdurdod i fynd i'r gwaith nag sy'n cymudo i mewn iddo o awdurdodau eraill. Caerdydd, sef yr awdurdod lleol mwyaf poblog yn y rhanbarth, a welodd y mewnlifiad mwyaf o weithwyr o awdurdodau lleol eraill, tra gwelodd yr ail awdurdod lleol mwyaf poblog, sef Rhondda Cynon Taf, yr all-lif mwyaf o weithwyr.

**Ffigur 13: Pellter cyfartalog teithiau i'r gwaith (km) gan weithwyr 16-74 oed yn 2011, yn ôl yr awdurdod lleol lle maent yn preswylio**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Dengys data Cyfrifiad 2011, ar gyfartaledd, fod trigolion mewn gwaith 16-74 oed ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth, ac eithrio yn Sir Fynwy a Phen-y-bont ar Ogwr, yn cymudo ymhellach i'r gwaith na chyfartaledd Cymru. Trigolion Caerdydd oedd â'r teithiau cymudo byrraf yng Nghymru, ar gyfartaledd.

Fel yng ngweddill y wlad, mae data 2019 yn dangos bod gan y mwyafrif helaeth o'r busnesau yn y De-ddwyrain lai na 10 o weithwyr. Cyfran y microfusnesau yn y De-ddwyrain oedd yr isaf o blith y pedwar rhanbarth, ond ganddi yr oedd y nifer cyd-uchaf o fentrau mawr.

Dengys data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2018 mewn 6 o'r 10 awdurdod lleol yn y rhanbarth fod cyfran y dynion a'r merched 10-64 oed heb gymwysterau yn uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru, ac yng Nghasnewydd ac ym Merthyr Tudful fel ei gilydd, y ganran oedd 14.8 y cant, sef yr un uchaf yng Nghymru. Yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Sir Fynwy roedd canran y dynion a'r merched 18-64 oed oedd â chymwysterau hyd at NQF lefel 2 neu'n uwch yn fwy na'r ffigur ar gyfer Cymru, sef 78.9 y cant. Roedd y tri awdurdod lleol hyn hefyd ymhlith y rhai â'r gyfran uchaf o ddynion a merched 18-64 oed â chymwysterau hyd at NQF lefel 4 neu uwch.

## Trafnidiaeth

### Ffigur 14: Seilwaith Trafnidiaeth yn y De-ddwyrain





Ffynhonnell: Arolwg Ordnans

Mae seilwaith trafnidiaeth y De-ddwyrain yn cynnwys rhan o draffordd yr M4 a mwy o orsafoedd rheilffordd nag yn y rhanbarthau eraill yng Nghymru. Yn y rhanbarth hefyd ceir tri o naw porthladd Cymru ac un o'r ddau faes awyr yng Nghymru (mae'r llall ar Ynys Môn).

Mae ymchwil i gyflymder cerbyddau ar draffyrdd Cymru yn dangos bod yr M4 drwy Gasnewydd â chyflymder cyfartalog isel yn ystod adegau prysur i'r ddau gyfeiriad rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2016. Cofnodwyd cyflymder cyfartalog araf tua'r dwyrain ym Mro Morgannwg yn ystod y bore, sy'n adlewyrchu traffig cymudwyr yn anelu am Gaerdydd. Yn Sir Fynwy roedd cyflymder cyfartalog araf tua'r gorllewin, o bosib o ganlyniad i doll Ail Groesfan Hafren, a symudwyd yn Rhagfyr 2018.

Roedd cyflymder cyfartalog o dan 60 mya yn aml ar yr A48(M) yn ystod adegau prysur. Roedd yr A48(M) tua'r gorllewin yn gweld cyflymder cyfartalog is na 50 mya yn gyson yn ystod adegau prysur y bore.

**Ffigur 15: Dulliau o deithio i'r gwaith a ddefnyddiwyd gan drigolion cyflogedig y De-ddwyrain rhwng 16 a 74 oed, 2011**





Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys data'r Cyfrifiad o 2011, o'r gweithwyr 16-74 oed a oedd yn byw yn y De-ddwyrain, fod 74.3 y cant yn teithio i'r gwaith yn y car, mewn fan neu ar feic modur, sgwter neu foped. Mae hyn yn cyfateb i tua 488,000 o bobl ledled y rhanbarth. Roedd 12.0 y cant (79,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar droed neu ar feic. Roedd 8.8 y cant (58,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar drên neu mewn bws, bws mini neu goets.

Yn 2018-19 ar draws y De-ddwyrain a ledled Cymru, oedolion 16 oed a throsodd yng Nghaerdydd oedd fwyaf tebygol o gerdded am fwy na 10 munud fel ffordd o deithio, gyda 80.5 y cant yn gwneud hynny o leiaf unwaith y mis. Merthyr Tydfil oedd yr awdurdod lleol yn y De-ddwyrain lle roedd hyn yn lleiaf tebygol (65.5 y cant).

Ym Merthyr Tudful hefyd yr oedd y gyfran isaf (2.2 y cant) o oedolion 16 oed a throsodd, yn y rhanbarth ac yng Nghymru, a oedd yn defnyddio beic fel ffordd o deithio o leiaf unwaith y mis dros yr un cyfnod. Yr awdurdod lleol â'r gyfradd defnydd beic rheolaidd uchaf oedd Caerdydd (15.9 y cant).

**Ffigur 16: Teithiau trên a wnaed yn y De-ddwyrain dros amser, yn ôl awdurdod lleol**





Ffynhonnell: Tueddiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol, Proffiliau Defnyddwyr Rhanbarthol, Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd

Ar draws y De-ddwyrain, roedd nifer y teithiau trên a wnaed yn 2017-18 yn 17.4 miliwn, sef cynnydd o 4.5 miliwn ers 2007-08. Dengys Ffigur 19, ar lefel awdurdod lleol, mai yng Nghaerdydd yr oedd y cynnydd mwyaf mewn siwrneiau o ran nifer. Fodd bynnag, Merthyr Tudful oedd yr awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf mewn siwrneiau o ran canran, gyda chynnydd o 71.1 y cant o 2007-08 i 2017-18.

Yn 2017-18, roedd 95 o orsafoedd rheilffordd yn y De-ddwyrain. O'r rhain, ystyriwyd bod 15 ymhlith yr 20 o orsafoedd prysuraf yng Nghymru o ran nifer y mynediadau a'r ymadawiadau. Yng ngorsaf Caerdydd Canolog y cofnodwyd 25 y cant o holl fynediadau ac ymadawiadau gorsafoedd yng Nghymru.

# Yr Amgylchedd


## Ffigur 17: Arfordir Treftadaeth ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn y De-ddwyrain




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn y De-ddwyrain, mae arfordir Morgannwg wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth er mwyn ei ddiogelu rhag datblygiadau ansensitif. Mae'r rhanbarth hefyd yn gartref i ran o Ardal Gwarchodaeth Arbennig Aber Afon Hafren. Diben y rhain yw diogelu rhywogaethau adar sydd naill ai'n brin neu'n agored i niwed neu sydd, yn achos adar mudol, yn ymweld ag arfordiroedd Cymru yn rheolaidd.

**Ffigur 18: Amgylchedd Naturiol Dynodedig yn y De-ddwyrain**




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae amgylchedd naturiol dynodedig y De-ddwyrain yn cynnwys rhannau o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn ogystal â rhannau o Ddyffryn Gwy, sydd wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AOHNE). Mae'r rhanbarth hefyd yn gartref i 14 o barciau gwledig.

## Ansawdd Aer


Ar y cyfan, roedd lefelau nitrogen deuocsid yn uwch yn awdurdodau lleol y De-ddwyrain nag mewn awdurdodau lleol yn y rhanbarthau eraill, ond mae'r lefelau hyn wedi bod yn gostwng dros amser.

Caerdydd oedd â'r crynodiad mwyaf o nitrogen deuocsid yn yr aer yn y rhanbarth yn 2017 (sef 17 $\mu g/m^3$), a Blaenau Gwent, ynghyd â Merthyr Tudful a Sir Fynwy, oedd â'r crynodiad lleiaf (sef 8 $\mu g/m^3$). Mae'r crynodiad a nodwyd wedi lleihau ym mhob awdurdod lleol ledled y rhanbarth ers 2007, a lleihaodd 4 $\mu g/m^3$ yng Nghaerdydd rhwng 2016 a 2017, sy'n fwy nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru.

## Ynni

Roedd capasiti o 826 megawat (MW) o ynni carbon isel yn y rhanbarth yn 2018, sef 21 y cant o gyfanswm Cymru. Rhondda Cynon Taf oedd â'r capasiti ynni carbon isel uchaf yn y rhanbarth yn ystod y cyfnod hwn, yn uwch na Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Casnewydd, Caerdydd a Chaerffili gyda'i gilydd. Roedd 94 y cant o'r 25,200 o brosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth ar gyfer ynni solar (ffotofoltäig neu thermol).


**Ffigur 19: Trin gwastraff trefol yn y De-ddwyrain**




Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn 2018-19, lefel y gwastraff trefol awdurdodau lleol a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio oedd 62 y cant yn y De-ddwyrain, o gymharu â 52 y cant yn 2012-13, sef y flwyddyn gynharaf y mae data y gellir eu cymharu'n uniongyrchol ar gael ar ei chyfer. Ym Mlaenau Gwent, Caerdydd a Chasnewydd y cofnodwyd y gyfradd ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio isaf yn y rhanbarth ac ymysg yr isaf ledled Cymru (sef 59 y cant) yn 2018-19. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr y cofnodwyd y gyfradd uchaf yn y rhanbarth yn ystod y cyfnod hwn (sef 69 y cant).

**Ffigur 20: Gwastraff gweddilliol blynyddol cartrefi a gynhyrchwyd y pen (kg) yn y De-ddwyrain, yn ôl awdurdod lleol, 2018-19**




Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Roedd y gwastraff gweddilliol cartrefi blynyddol a gynhyrchwyd fesul person ar draws y De-ddwyrain yn 2018-19 yn amrywio o 126kg ym Mhen-y-bont ar Ogwr i 213kg yng Nghasnewydd. Rhondda Cynon Taf a Pen-y-bont ar Ogwr welodd y newid mwyaf mewn gwastraff gweddilliol cartrefi a gynhyrchwyd fesul person ers 2012-13, gyda gostyngiad o 33 y cant, neu 92kg y person yn Rhondda Cynon Taf a 62kg y pen ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yn y cyfamser, ar gyfer Casnewydd a Chaerffili, roedd gwastraff gweddilliol cartrefi y pen yn 2018-19 (213kg a 162kg y person) yn debyg i'r ffigurau cyfatebol ar gyfer 2012-13.

## Ffyniant

Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yw'r gwerth a gynhyrchir gan unrhyw uned sy'n ymwneud â chynhyrchu nwyddau a gwasanaethau. Mae GYG y pen yn ffordd ddefnyddiol o gymharu rhanabarthau o wahanol faint. Fodd bynnag, nid yw'n mesur cynhyrchiant rhanbarthol.

Dylid nodi bod ffigurau GYG rhanbarthol yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, gan fod modd iddynt gael eu heffeithio gan ffactorau fel cymudo rhwng rhanbarthau, a'r demograffeg a mathau o swyddi gwahanol mewn rhanbarthau. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn erthygl blog y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Hefyd, sylwer bod y ffigurau rhanbarthol yn cael eu dosrannu o gyfansymiau cenedlaethol ar sail dangosyddion rhanbarthol. Mae'r dangosyddion rhanbarthol, sy'n cynnwys data gweinyddol ac arolygon, yn cael eu hystyried fel y ffynonellau mwyaf priodol, ond gallant arwain at ddyraniadau rhanbarthol amherffaith.

Yn y De-ddwyrain, roedd GYG y pen yn £21,950 yn 2018 (y data a gynhwyswyd yw'r dull cytbwys ar gyfer GYG). Dyma'r gwerth uchaf o blith pedwar rhanbarth Cymru, sy'n uwch na gwerth Cymru ond yn is na gwerth y DU. Roedd lefelau GYG y pen ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Sir Fynwy a Chasnewydd yn uwch na ffigur Cymru, a Chaerdydd oedd yr unig awdurdod lleol yn y rhanbarth lle'r oedd GYG y pen yn uwch na gwerth y DU.


Ar draws y rhanbarth, tyfodd GYG y pen 2.6 y cant o'r flwyddyn flaenorol a 79.4 y cant ers 1999. Tyfodd GYG Caerdydd y pen 86.8 y cant rhwng 1999 a 2018. Roedd hyn yn fwy nag unrhyw rai o'r awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth. Yn y cyfamser, yng Nghasnewydd y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn GYG y pen yn y De-ddwyrain o'i gymharu â 2017, i fyny 6.6 y cant.

Mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI) yn amcangyfrif o'r swm o arian sydd gan aelwydydd i'w wario neu ei gynilo. Yn y De-ddwyrain, roedd GDHI y pen yn £15,563 yn 2017. Ledled y rhanbarth, cynyddodd GDHI y pen 1.0 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a 57.3 y cant ers 1999.

Yn y De-ddwyrain, roedd enillion wythnosol gros canolrifol cyflogeion amser llawn yn 2019 ar ei uchaf ym Mro Morgannwg (£583.80), ac ar ei isaf ym Merthyr Tudful (£468.30). Yn y De-ddwyrain, cynyddodd enillion canolrifol 4.5 y cant (neu £23.60). Y cynnydd mwyaf nodedig oedd ym Mro Morgannwg, lle y cynyddodd enillion canolrifol cyflogeion llawn amser 18.8 y cant neu £92.50 yr wythnos. Roedd y gostyngiad mwyaf yn y rhanbarth ym Mhen-y-bont ar Ogwr, i lawr 3.6 y cant neu £19.70.

Mae data SYG yn amcangyfrif cyfran y gweithwyr sy'n ennill llai na'r cyflog byw (£9.00 yn 2019, fel y'i diffinnir gan y sefydliad cyflog byw). Yn 2019, dengys y canlyniadau fod, ar draws y rhanbarth, ystod o 13.8 pwynt canran rhwng awdurdodau lleol. Y ganran isaf oedd Bro Morgannwg, sef 16.4 y cant, a'r uchaf oedd Blaenau Gwent, sef 30.2 y cant. Noder bod yr amcangyfrifon hyn gan awdurdodau lleol yn amrywio o ran eu hansawdd, gan adlewyrchu maint y samplau yn bennaf.

**Ffigur 21: Disgyblion 5-15 oed a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y De-ddwyrain, yn ôl awdurdod lleol, 2018-19**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru

Yn y De-ddwyrain, roedd 19.2 y cant o ddisgyblion 5-15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2018/19, i lawr 0.8 pwynt canran dros y 10 mlynedd blaenorol. Ym Mlaenau Gwent yr oedd y gyfradd uchaf yn y rhanbarth (22.7 y cant), a'r ganran isaf yn Sir Fynwy (11.3 y cant). Roedd y newid mwyaf o 2008/09 i 2018/19 yn Nhor-faen, lle cafwyd cynnydd o 4.8 pwynt canran yng nghanran y plant a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o 4.8 pwynt canran.

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ei nod yw dangos yr ardaloedd bach hynny lle mae'r crynodiadau uchaf o nifer o wahanol fathau o amddifadedd. Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl o bosib yn ein cymdeithas. Gall hyn fod yn nhermau nwyddau materol neu allu unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Mae rhanbarth y De-ddwyrain yn cynnwys 939 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is. Mae hyn yn 49 y cant o'r holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru.

Wrth edrych ar yr 191 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar draws Cymru yn 2014 - sef y 10 y cant mwyaf difreintiedig, mae 126 ohonynt yn y De-ddwyrain. Mae hyn yn cyfateb i 13 y cant o'r holl Ardaloedd Gynnyrch Ehangach Haen Is yn y rhanbarth, a 66 y cant o'r 10 y cant mwyaf difreintiedig ledled Cymru.


Cafodd MALIC ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Tachwedd 2019, ac mae'r offeryn rhyngweithiol yn darparu dadansoddiadau ystadegol pellach yn ôl Dinas Ranbarth / Ardal Bargen Ddinesig yng Nghymru.

### Busnesau

Yn y De-ddwyrain, o'r holl fusnesau a sefydlwyd yn 2013, goroesodd 93.7 y cant eu blwyddyn gyntaf, ac roedd 40.8 y cant yn dal i weithredu ar ôl pum mlynedd. Cyfrifwyd y canrannau o ffigurau wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

## Seilwaith Digidol

### Ffigur 22: Canran y cartrefi a'r busnesau yn y De-ddwyrain a allai gael gwasanaeth band eang cyflym iawn neu wibgyswllt, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Yn y De-ddwyrain ym mis Medi 2019, roedd 96 y cant o gartrefi a busnesau mewn ardaloedd lle roedd cyflymder band eang sefydlog (30Mbit/e neu uwch) neu gyflymder band eang cyflym iawn (300 Mbit/e neu'n uwch) ar gael. Sir Fynwy oedd â'r lleiaf o adeiladau, sef 85 y cant; roedd y 9 awdurdod arall rhwng 95 a 98 y cant. Roedd 34 y cant o'r cartrefi a'r busnesau yn gallu cael cysylltiad band eang sefydlog gwibgyswllt, yn amrywio o 1 y cant ym Mlaenau Gwent i 79 y cant yng Nghaerdydd. Roedd y ffigur rhanbarthol 15 pwynt canran yn is na'r ffigur ar gyfer y DU, sef 52 y cant.

Roed gwasanaethau ffeibr llawn ar gael i 11 y cant o'r cartrefi a'r busnesau ledled y rhanbarth; roedd hyn 1 pwynt canran yn uwch na chyfradd y DU. Mae band eang ffeibr llawn yn defnyddio ceblau ffeibr optig i gysylltu cartrefi a busnesau â'r cabinet ar y stryd, yn lle cysylltiadau copr. Mae cysylltiadau ffeibr optig yn darparu gwasanaeth gwell a mwy dibynadwy a all gynnig cyflymder hyd at un gigabit yr eiliad.


**Ffigur 23: Canran y cartrefi a'r busnesau yn y De-ddwyrain nad oeddent yn bodloni gofynion y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019**




Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Nid oedd tua 2,400 o gartrefi a busnesau ledled y rhanbarth, neu 0.3 y cant, yn bodloni gofynion sylfaenol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, ym mis Medi 2019, sy'n golygu nad oeddent yn gallu manteisio ar gyflymder lawrlwytho o 10Mbit/e na chyflymder lanlwytho o 1Mbit/e. Roedd y gyfran hon yn is na chyfartaledd y DU (0.5 cant) a Chymru (1.0 y cant).

**Ffigur 24: Canran y cartrefi a'r busnesau yn y De-ddwyrain a allai gael signal 4G dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019**





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Gan edrych ar wasanaethau 4G, roedd canran y cartrefi a'r busnesau yn y De-ddwyrain a oedd yn cael signal dan do gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2019 yn amrywio o 70 y cant ym Mro Morgannwg a Sir Fynwy i 89 y cant yng Nghaerdydd. Cyfartaledd y DU oedd 80 y cant a chyfartaledd Cymru oedd 72 y cant.

O ran cwmpas daearyddol, nid oedd 8 y cant o arwynebedd Sir Fynwy yn cael ei wasanaethu gan unrhyw weithredwr, sy'n fwy nag mewn unrhyw awdurdod lleol arall yn y rhanbarth. Mewn 5 o'r 10 awdurdod lleol yn y rhanbarth, roedd 1 y cant neu lai o'r ardal ddaearyddol heb wasanaeth.

**Ffigur 25: Canran y cartrefi a'r busnesau yn y De-ddwyrain a allai gael gwasanaeth galwadau llais dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019**





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Ar gyfer gwasanaethau galwadau ffôn yn y rhanbarth, roedd canran y cartrefi a'r busnesau a oedd yn cael signal dan do gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2019 yn amrywio o 86 y cant yn Sir Fynwy i 99 y cant yn Nhorfaen.

Roedd cyfran ardal ddaearyddol y De-ddwyrain nad oedd yn cael ei gwasanaethu gan unrhyw weithredwr yn 1 y cant neu'n is ym mhob awdurdod lleol, ac eithrio Sir Fynwy (3 y cant).

## Tai


**Ffigur 26: Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn y De-ddwyrain dros amser (pob deiliadaeth)**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon Stoc Annedd, Llywodraeth Cymru


Mae cyfanswm yr anheddau yn y De-ddwyrain yn parhau i gynyddu'n raddol ac amcangyfrifir bod 675,100 o anheddau ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 5 y cant dros y 10 mlynedd diwethaf. Roedd gan Gaerdydd, sef yr awdurdod lleol â'r nifer fwyaf o anheddau, fwy o anheddau na Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy gyda'i gilydd. Roedd 14 y cant o'r holl anheddau ledled y rhanbarth yn cael eu rhentu'n breifat ac roedd 69 y cant yn eiddo i berchen-feddianwyr.

**Ffigur 27: Nifer y fflatiau a'r cartrefi newydd a gwblhawyd yn y De-ddwyrain dros amser**




Ffynhonnell: Casglu data: adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru

**Ffigur 28: Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yn y De-ddwyrain dros amser, yn ôl deiliadaeth**




Ffynhonnell: Casglu data: adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru

Mae'r ffigurau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol (NHBC) yn dod o gofnodion a gedwir at ddibenion rheoli adeiladu. Weithiau, mae'n anodd i swyddogion rheoli adeiladu nodi a yw annedd yn cael ei hadeiladu ar gyfer Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu ar gyfer datblygwr preifat, a allai arwain at dangyfrif tai newydd a adeiledir ar gyfer Landlordiaid Cofrestredig Preifat a'u gorgyfrif ar gyfer y sector preifat.

Ar draws y rhanbarth, cwblhawyd 3,171 o anheddau newydd yn ystod 2018-19. Mae hyn 22 y cant yn llai na 10 mlynedd yn flaenorol a 22 y cant yn llai nag 20 mlynedd yn gynharach. Roedd y nifer uchaf o anheddau newydd a gwblhawyd ym 2018-19 yng Nghaerdydd (730, neu 23 y cant) tra'r oedd y ganran isaf ym Merthyr Tudful (36, neu 1 y cant).


Mae data o Fynegai Prisiau Tai y DU yn dangos, yn y De-ddwyrain ym mis Medi 2019, fod prisiau tai cyfartalog yn amrywio o £94,700 ym Mlaenau Gwent i £274,300 yn Sir Fynwy. Y rhain hefyd oedd yr awdurdodau lleol a oedd yn profi ac isaf a'r newidiadau absoliwt uchaf ym mhrisiau tai dros gyfnod o ddeng mlynedd. Rhwng Medi 2009 a Medi 2019, cynyddodd prisiau tai £19,500 (neu 26.0 y cant) ym Mlaenau Gwent, a £83,800 (neu 43.9 y cant) yn Sir Fynwy. Er mai yn Sir Fynwy y cafwyd y newid mwyaf mewn gwir brisiau eiddo, cofnododd Casnewydd gynnydd canrannol ychydig yn uwch dros y cyfnod hwn, ar 44.9.

Yn unol â fersiwn mis Rhagfyr 2018 o Fynegai Prisiau Tai'r DU: UK House Price Index (UK HPI). Mae UK HPI yn fynegai sydd wedi addasu yn ôl cymysgedd, sy'n golygu ei fod wedi'i bwysoli i adlewyrchu'r cymysgedd gwirioneddol o eiddo a werthwyd yn y flwyddyn flaenorol. Cyhoeddir UK HPI yn fisol. Mae'r holl ffigurau ysydd ynddo yn agored i'w diwygio am hyd at 12 mis.

Amcangyfrifodd yr awdurdodau lleol fod 217 o bobl yn cysgu ar y stryd ledled y De-ddwyrain yn y pythefnos rhwng 14 a 27 Hydref 2019. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 25 y cant (44 unigolyn) o gymharu â'r ymarfer a gynhaliwyd ym mis Hydref 2018. Roedd 42 y cant o'r bobl a oedd yn cysgu ar y stryd yn y rhanbarth wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, tra amcangyfrifodd Blaenau Gwent nad oedd unrhyw un yn cysgu ar y stryd yn ei ardal.

## Diwylliant a Threftadaeth

### Ffigur 29: Safleoedd Treftadaeth y Byd ac Adeiladau Rhestredig yn y De-ddwyrain




Ffynhonnell: Cadw

Yn ogystal â'i hadeiladau rhestredig, mae un o safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO wedi'i leoli yn y De-ddwyrain, sef Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon.

Cafodd De-ddwyrain Cymru 37 miliwn o Ymweliadau Dydd gan Dwristiaid yn 2018, a arweinodd at gyfanswm gwariant o £1.9 biliwn. Hon oedd y nifer fwyaf o ymweliadau, a'r lefel uchaf o wariant, yng Nghymru, ond nid oedd cystal â'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer unrhyw un o ranbarthau Lloegr.

Dengys Arolwg Deiliadaeth Llety Twristiaeth Cymru mai De-ddwyrain Cymru oedd â'r gyfradd uchaf yng Nghymru ar gyfer defnydd ystafelloedd mewn gwestai yn 2018 (sef 73 y cant), er bod y gwahaniaeth mwyaf mewn cyfraddau defnydd ystafelloedd a gwelyau wedi'i gofnodi yn y rhanbarth hwn hefyd, lle y gallai defnydd ystafelloedd sengl adlewychu, o bosibl, ddefnydd busnes uwch yn yr ardal hon, h.y. gwestai yng Nghaerdydd yn cael eu defnyddio ar gyfer busnes.

Wrth ystyried nifer yr ymweliadau at atyniadau twristiaeth yng Nghymru yn 2018, roedd 1 o'r 10 atyniad mwyaf poblogaidd â thâl mynediad yn Ne-ddwyrain Cymru, sef: Castell Caerdydd. Dros yr un cyfnod, roedd 3 o'r 10 atyniad mwyaf poblogaidd sydd am ddim yn Ne-ddwyrain Cymru, sef: Canolfan Mileniwm Cymru, Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Y gyfradd defnydd ystafelloedd yw nifer yr ystafelloedd gwely a ddefnyddir dros gyfnod penodol fel cyfran o gyfanswm yr ystafelloedd gwely sydd ar gael.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Perthnasedd

Mae'r cyhoeddiad hwn yn gompendiwm o ystadegau allweddol ar naw pwnc gwahanol. Mae'n dwyn ynghyd ddata sydd eisoes wedi'u cyhoeddi ar wahanol lefelau daearyddol (e.e. ar lefel Cymru, ar lefel awdurdod lleol). Lle y bo'n bosibl ac yn briodol, darparwyd data ar lefel ranbarthol er mwyn rhoi rhagor o gyd-destun ynglŷn â gwahaniaethau rhanbarthol a allai fodoli yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth am ffynonellau data penodol yn dolenni at ddatganiadau unigol.

Lluniwyd y cyhoeddiad hwn i ddechrau er mwyn helpu timau polisi yn Llywodraeth Cymru i baratoi a drafftio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd. Fodd bynnag, rhagwelwn y bydd y cyhoeddiad hwn, oherwydd ei gwmpas, yn ddefnyddiol i eraill. Rhagwelir y caiff ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill â diddordeb rhanbarthol a chan ycyhoedd, er mwyn (i) cael trosolwg o'r data a gesglir ar gyfer Cymru a'i hawdurdodau lleol a'i rhanbarthau ar bob un o'r pynciau a (ii) deall gwahaniaethau a allai fodoli rhwng rhanbarthau Cymru. Gall defnyddwyr â diddordeb arbennig mewn un neu fwy o'r pynciau yn yr adroddiad hwn weld amrywiaeth ehangach o ystadegau a data ar StatsCymru.

### Cywirdeb

Daw'r ystadegau a geir yn y datganiad hwn o ffynonellau ystadegau swyddogol, er nad ydynt i gyd wedi cael eu dosbarthu'n Ystadegau Cenedlaethol. Ceir rhagor o wybodaeth am ystadegau swyddogol ac Ystadegau Gwladol ar wefan Awdurdod Ystadegau'r DU. Ceir gwybodaeth am ansawdd pob un o'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y datganiadau unigol, y cyfeirir atynt yn y troednodiadau, neu yn yr adroddiadau ansawdd sy'n ategu'r datganiadau hyn.

Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Roedd yn hysbys bod mwyafrif y data ar gael y data fwyaf diweddar ar 30/01/2020. Mae data cyfredol ar gael drwy ddilyn y dolenni i ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y troednodiadau. Nid yw amcangyfrifon o'r angen am dai wedi'u cynnwys gan fod cyhoeddi'r data hwn a oedd hefyd wedi'i drefnu ar gyfer 20 Mai wedi'i ohirio. Ar 18 Mai 2020, nododd SYG eu bod wedi darganfod rhai gwallau prosesu sy'n effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth genedlaethol ar sail 2018. Mae hyn yn effeithio'n bennaf ar y llifoedd rhwng Cymru a Lloegr. Mae effaith hyn yn fawr a bydd y data'n cael ei adolygu. Felly, nid yw amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau hyn.

Er nad ydym yn bwriadu diweddaru'r adroddiadau hyn yn rheolaidd, maent wedi'u diweddaru nawr i gefnogi datblygiad parhaus y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn dilyn ymgynghori ar yr NDF drafft yn hydref 2019. Fodd bynnag, yn y dyfodol, bydd data ar gael ar StatsCymru ac mewn dangosfyrddau, a chânt eu diweddaru wrth i ddata newydd gael eu cyhoeddi, gan sicrhau bod defnyddwyr bob amser yn cael y data diweddaraf.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae'n bosibl fod data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Roedd yn hysbys bod mwyafrif y data ar gael y data fwyaf diweddar ar 30/01/2020. Nid yw amcangyfrifon o'r angen am dai wedi'u cynnwys gan fod cyhoeddi'r data hwn a oedd hefyd wedi'i drefnu ar gyfer 20 Mai wedi'i ohirio. Ar 18 Mai 2020, nododd SYG eu bod wedi darganfod rhai gwallau prosesu sy'n effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth genedlaethol ar sail 2018. Mae hyn yn effeithio'n bennaf ar y llifoedd rhwng Cymru a Lloegr. Mae effaith hyn yn fawr a bydd y data'n cael ei adolygu. Felly, nid yw amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau hyn.

### Hygyrchedd ac eglurder

Gall defnyddwyr weld yr holl ddata a geir yn y datganiad hwn drwy ddilyn y dolenni a nodir yn y troednodiadau. Mae'r mwyafrif o'r data sy'n sail i'r adroddiad hwn, gan gynnwys dadansoddiadau llawer mwy manwl, ar gael ar StatsCymru a thrwy wasanaethau data agored StatsCymru. Mae gwybodaeth am ansawdd a metadata ar gyfer pob un o'r ffynonellau hyn hefyd ar gael drwy ddilyn y dolenni hyn.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar hyn o bryd mewn fformat PDF y gellir ei argraffu, ond yn y dyfodol, cyhoeddir data fel adroddiadau ar-lein rhyngweithiol er mwyn sicrhau'r lefel uchaf posibl o effaith ac effeithlonrwydd gan ddefnyddio gwasanaethau data agored Llywodraeth Cymru.

### Cymaroldeb a chydlyniaeth

Lle mae setiau data gwahanol wedi'u defnyddio i drafod yr un pwnc (er enghraifft yn yr adran ar ystadegau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, rhoddir esboniad o gryfderau a chyfyngiadau pob un o'r ffynonellau hyn, a'r gydlyniaeth rhyngddynt, gyda rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn y ffynonellau a'r dolenni.

Lle y bo'n bosibl, mae Ystadegau Gwladol wedi'u defnyddio er mwyn sicrhau bod y data o ansawdd uchel a'u bod yn gyson ag ystadegau ar y pynciau a allai gael eu defnyddio at ddibenion eraill. Ceir rhagor o wybodaeth am gymharedd a chydlyniaeth pob un o'r ffynonellau yn y ffynonellau y mae dolenni iddynt wedi'u nodi yn y troednodiadau.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru, sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynwyd y 46 dangosydd cenedlaethol ym mis Mawrth 2016 ac mae'r datganiad hwn yn cynnwys 7 ohonynt, sef canran yr oedolion sydd â llai na dau ddangosydd ffordd iach o fyw; lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer; canran yr oedolion â chymwysterau ar wahanol lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol; Incwm

Gwario Gros Aelwydydd y pen; capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy a osodwyd; canran y bobl mewn gwaith; a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Fel dangosydd cenedlaethol o dan y Ddeddf, rhaid cyfeirio atynt yn y dadansoddiadau o lesiant lleol a gynhyrchir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn dadansoddi llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd.

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn: https://llyw.cymru/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-cymru-2020

## Dolenni cysylltiedig eraill

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

## Y diweddariad nesaf

Mae'r cyhoeddiad hwn yn ddatganiad untro ac ni chaiff ei ddiweddaru. Fodd bynnag, darperir data yn y dyfodol mewn fformat dangosfwrdd a chânt eu diweddaru wrth i ddata newydd ddod ar gael.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at Desg.ystadegau@llyw.cymru.

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir fel arall.